

# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

# Cynigion Allweddol i'w Trafod gyda'r Cyhoedd



Crynodeb byr yw'r daflen hon o'r elfennau allweddol o'r ddogfen Hoff Strategaeth drafft ymgynghorol

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mai 2013

# Cyflwyniad


Wrth edrych ymlaen i'r dyfodol, mae angen i ni gynllunio ar gyfer lle bydd pobl yn byw a gweithio a sut y byddant yn symud o gwmpas. I'r perwyl hwn, mae cynghorau Gwynedd a Môn yn gweithio gyda'i gilydd i lunio fframwaith newydd a fydd yn gosod canllawiau ar ddefnyddio tir – **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.**

Bydd y cynllun hwn yn adnabod ardaloedd tŵf a datblygu yn y ddwy sir (ac eithrio'r ardaloedd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri) hyd at 2026. Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd y Cynghorau'n defnyddio'r Cynllun i benderfynu a ddylai caniatâd cynllunio gael ei roi neu ei wrthod.

Mae'r Cynllun yn cael ei baratoi mewn dau gam:

Yn y **Cam Cyntaf**, mae cynigion y Cynghorau ar ddefnydd tir yn cael eu cyflwyno a'u cyhoeddi fel dogfen ac iddi'r teitl 'Hoff Strategaeth'. Mae hyn eisoes wedi'i gwblhau ac mae cyfnod saith wythnos o ymgynghori cyhoeddus ar fin cychwyn cyn symud ymlaen at yr ail gam. Mae'r ymgynghoriad yma'n rhoi cyfle ichi ddweud eich barn a ydym yn symud i'r cyfeiriad iawn ai peidio. Mae cyfnod ymgynghori'n cychwyn ar 9fed Mai 2013 a bydd yn parhau tan 27ain Mehefin. (gweler manylion ar dudalen 9)

Yn ystod yr **Ail Gam**, byddwn yn defnyddio'ch sylwadau o'r ymgynghoriad cyhoeddus ac unrhyw dystiolaeth berthnasol arall i baratoi'r cynllun llawn – y **Cynllun Adnau** – a fydd yn cynnwys dynodiadau tir a pholisïau cynllunio manwl. Ar ôl cael ei gymeradwyo gan y ddau Gyngor, fe fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.



## Ein Gweledigaeth a'n Prif Amcanion

Y weledigaeth sy'n sail i'n cynigion yw y bydd Gwynedd a Môn erbyn 2026 yn **rhanbarth llewyrchus a deniadol** a fydd yn parhau'n **gadarnle i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg** ac yn **rhywle y bydd pobl yn dewis byw a gweithio ynddo** ac ymweld ag ef.

Er mwyn gwireddu'r Weledigaeth bydd angen:

- **sicrhau mwy o swyddi i bobl leol**
- **darparu ar gyfer tai i ddiwallu anghenion lleol**
- **cryfhau ein cymunedau, ein hiaith a'n treftadaeth**
- **gwarchod a gwella'n hamgylchedd.**







# Mwy o Swyddi i Bobl Leol

*Gadewch i ni edrych yn fanylach ar yr hyn a gynigiwn er mwyn cyflawni hyn:*

**Mwy o swyddi i bobl leol**

- darparu **fframwaith polisi cynllunio defnydd tir** sy'n hybu sectorau allweddol fel nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, technoleg forol, twristiaeth, y sector cyhoeddus, cynhyrchu, ynni adnewyddadwy a charbon isel, siopau, iechyd a gofal
- gwarchod **168 hectar** o dir yn ardal y Cynllun (84 hectar yr un yng Ngwynedd a Môn) mewn **parciau busnes a stadau diwydiannol**
- dynodi **5 hectar** ychwanegol yng Ngwynedd (gerllaw Porthmadog neu Bwll-heli) fel parciau busnes neu stadau diwydiannol
- cefnogi **cyfleoedd gwaith addas ar raddfa fach** o fewn neu o gwmpas **Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad**.
- sicrhau **swyddi i weithwyr lleol** mewn unrhyw **Brosiectau Adeiladu Mawr**, gan gynnwys atomfa newydd arfaethedig yn y Wylfa
- hyrwyddo **twristiaeth drwy'r flwyddyn**
- cefnogi datblygiad sy'n creu **canol trefi bywiog ar gyfer siopa, hamdden ac adloniant**

Mae manylion llawn am y polisïau sy'n gysylltiedig â'r uchod i'w gweld o dan y pennawd **Deilliant 1: Uchafu cyfleon o ddatblygiadau economaidd** yn y ddogfen Hoff Strategaeth ar www.gwynedd.gov.uk neu www.ynysmon.gov.uk

# Tai ar Gyfer Anghenion Lleol

**Tai ar gyfer anghenion lleol**

- fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer **7,665 o unedau tai** yn ardal y Cynllun, sy'n gyfystyr â **chyfartaledd o 511 o unedau tai y flwyddyn**. Gallai hyn olygu 225 o unedau tai y flwyddyn ym Môn a 286 o unedau tai yng Ngwynedd (y tu allan i'r ardal sydd o fewn y Parc Cenedlaethol)
- **y math iawn o dai** (o safbwynt pris, daliadaeth, maint) **yn y lle iawn** (e.e. o fewn cyrraedd cyfleoedd gwaith, ysgolion a cholegau, a rhwydweithiau digidol)
- cyfran o dai newydd i fod yn **'dai fforddiadwy'**, naill ai'n dai canolraddol neu'n gartrefi rhent cymdeithasol
- rhoi sylw i anghenion grwpiau penodol, e.e. yr henoed, myfyrwyr, Sipsiwn a Theithwyr







Mae manylion llawn am y polisïau sy'n gysylltiedig â'r uchod i'w gweld o dan y pennawd **Deilliant 2: Tai i gwrdd ag angen lleol** yn y ddogfen Hoff Strategaeth ar www.gwynedd.gov.uk neu www.ynysmon.gov.uk

**Cymunedau, Iaith a Diwylliant**

- patrwm datblygu sy’n **cryfhau’r rhwydwaith o wahanol fathau o aneddleoedd** yn ardal y Cynllun
- **cynnal a chryfhau’r iaith a’r diwylliant Cymraeg** a hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg fel rhan hanfodol o fywyd y gymdeithas
- gwella a chynnal **rhwydweithiau trafnidiaeth diogel a hwylus** at swyddi, gwasanaethau ac addysg, yn enwedig ar droed, ar feic a thrafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn lleihau dibyniaeth ar geir preifat
- **amrywiaeth helaeth o wasanaethau a chyfleusterau** fel ysgolion, clinigau, canolfannau hamdden a siopau i alluogi cymunedau i fyw a thyfu yn y dyfodol







Mae manylion llawn am y polisïau sy’n gysylltiedig â’r uchod i’w gweld o dan y pennawd **Deilliant 3: Cryfhau ein cymunedau – gwledig a threfol** yn y ddogfen Hoff Strategaeth ar www.gwynedd.gov.uk neu www.ynysmon.gov.uk

## Gwarchod a gwella'n Hamgylchedd

- **Gwerthfawrogi'n cefn gwlad a'n harfordiroedd fel cyfoeth naturiol pwysig**, sy'n cefnogi gweithgareddau hamdden a'r economi amaethyddol leol
- Lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill mewn datblygiadau
- Cyflawni amcanion lleol a chenedlaethol neu ddyletswyddau statudol o safbwynt **tirwedd a bioamrywiaeth**
- **Gwarchod a gwella** cymeriad a golwg **amgylchedd diwylliannol a hanesyddol** unigryw ardal y Cynllun





Mae manylion llawn am y polisiau sy'n gysylltiedig â'r uchod i'w gweld o dan y pennawd **Deilliant 4: Cyfoethogi Asedau Amgylcheddol yr Ardal** yn y ddogfen Hoff Strategaeth ar www.gwynedd.gov.uk neu www.ynysmon.gov.uk

**Y Dimensiwn Byd-Eang**

Gwyddom y bydd y datblygiadau y byddwn yn eu hadeiladu heddiw'n cael effaith tymor hir ar Wynedd a Môn - nid yn unig ar yr amgylchedd lleol ond yn fyd-eang yn ogystal.

Oherwydd, bydd datblygu cynaliadwy sy'n helpu lleddfu ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn rhan gwbl allweddol o'r Cynllun.

Bydd y camau a gymerir yn cynnwys:

- Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cyrraedd safonau uchel mewn effeith-lonrwydd ynni
- Defnyddio tir a gafodd ei ddatblygu o'r blaen ac adeiladau gwag lle mae cy-flenwad addas ar gael
- Rheoli a gwella'r amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir
- Lleihau effaith llifogydd trwy sicrhau bod datblygiadau sy'n agored iawn i niwed yn cael eu cyfeirio oddi wrth ardaloedd o risg lle bynnag y bo hynny'n bosibl





## Ardaloedd Datblygu Allweddol

- Bydd datblygu ac adfywio'n cael ei gyfeirio'n benodol i'r **ganolfan isranbarthol** (Bangor) a'r **canolfannau gwasanaethol trefol** (Amlwch, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Porthmadog a Pwllheli).

- Bydd anogaeth yn cael ei roi hefyd i ddatblygiadau sy'n diwallu anghenion y rhwydwaith o wahanol **ganolfannau gwasanaethol lleol** (gweler map ar y tudalennau canol) a **phentrefi gwasanaethol**
- Yn yr un modd bydd cefnogaeth i **ddatblygiadau bach** mewn **pentrefi lleol**, **pentrefi gwledig ac arfordirol, clystyrau a chefn gwlad** - sy'n helpu gwasanaethau a chyfleusterau i gymunedau lleol.

Mae'r Diagram Allweddol ar y tudalennau canol yn dangos yr hyn a gynigiwn ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar raddfa cynllun cyfan.

**Cyfnod Ymgynghoriad**

Mae'r cyfnod ymgynghoriad yn dechrau ar y 9ed o Fai 2013 tan 5:00yh ar y 27ain o Fehefin 2013. Ni fydd cynrychiolaethau / sylwadau yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad cau.


**Beth yw eich barn chi?**

Gellir cyflwyno eich sylwadau ar ein cynigion:

**Yn ysgrifenedig i:**

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
Neuadd y Dref
Bangor
Gwynedd. LL57 1DT

**Ar-lein:**
polisicynllunio@gwynedd.gov.uk




©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023387
©Crown Copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023387

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio - Cyngor Gwynedd
Joint Planning Policy Unit, Regulatory Department - Gwynedd Council

1:500,000